Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

**Chwefror 2025 Canfyddiadau Arolwg Panel:**

Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd; darparu gwasanaethau gofal sylfaenol; cysylltedd cymdeithasol; llesiant personol; sicrwydd ariannol; isafbris am uned o alcohol; a sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial

Cyhoeddwyd: Mai 2025

# Cefndir



- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy'n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi **ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd** i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Chwefror 2025 sy'n cwmpasu:
  - **Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd**
  - **Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol**
  - **Cysylltedd cymdeithasol**
  - **Llesiant personol**
  - **Sicrwydd ariannol**
  - **Isafbris am uned o alcohol**
  - **Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.



# Trosolwg methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022 at Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio yn broses barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (yn agor mewn ffenestr newydd) ar unrhyw adeg.Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Wrth gyflwyno pob arolwg, bydd recriwtio ychwanegol wedi'i dargedu yn digwydd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, gwahoddwyd aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob dau fis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn. O fis Ebrill 2024, mae arolygon yn cael eu cynnal yn chwarterol.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg yn yr Atodiad.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a gafodd eu gwahodd i gwblhau'r arolwg a'r 2,137 gymerodd ran, ac a gwblhaodd yr arolwg ym mis Chwefror 2025 yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

- Cymerodd 2,137 o bobl ran yn arolwg mis Chwefror 2025 (20 Ionawr hyd at 2 Mawrth 2025).

## Anghydraddoldebau iechyd

- Pan ofynnwyd faint o effaith y mae wyth penderfynydd ehangach yn ei chael ar a yw unigolyn yn profi iechyd da, y tri uchaf yr ystyriwyd eu bod yn cael effaith fawr oedd:
  - Y gallu i gael mynediad at ofal iechyd (93%)
  - Cartrefi cynnes o ansawdd da (89%)
  - Sicrwydd ariannol da (78%)
- Dywedodd 70% o bobl eu bod yn cefnogi dyrannu arian ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yn seiliedig ar anghenion pobl mewn ardal. Gostyngodd hyn i 51% pan nodir y gallai olygu bod ardal â phobl ag iechyd da yn cael llai o wasanaethau gofal sylfaenol.

## Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol

- Dywedodd 60% o bobl, pe bai ganddynt nifer o bryderon iechyd, y byddent yn fodlon aros yn hirach am apwyntiad gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol pe bai'n golygu y gallent siarad am eu holl bryderon.
- Mae 47% o bobl yn meddwl ei bod yn dderbyniol aros hyd at 1 wythnos am apwyntiad cyffredinol gyda'u gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dewisol.

## Cysylltedd cymdeithasol ac llesiant personol

- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn teimlo'n gysylltiedig â phobl eraill (30% cysylltiedig iawn, 41% yn weddol gysylltiedig).
- Dywedodd 72% o bobl eu bod yn teimlo bod y pethau maen nhw'n eu gwneud yn eu bywyd yn werth chweil, a dywedodd 33% eu bod nhw gyda teimlad uchel o orbryder.

## Isafbris am uned o alcohol

- Dywedodd 58% o bobl eu bod yn gwybod bod isafbris am uned o alcohol yng Nghymru.
- Dywedodd 43% o bobl eu bod o blaid isafbris am uned, tra bod 21% yn erbyn, 28% ddim o blaid nac yn erbyn, 7% ddim yn gwybod.

## Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial

- Dywedodd 56% o bobl eu bod yn cefnogi defnyddio adnodd deallusrwydd artiffisial cymeradwy i gefnogi arbenigwyr gofal iechyd i adolygu mamogramau.
- Pe bai adnodd deallusrwydd artiffisial cymeradwy yn cael ei ddefnyddio yn y broses sgrinio'r fron, dywedodd 71% o bobl eu bod yn meddwl y byddai'n gwella amseroldeb a dywedodd 67% eu bod yn meddwl y byddai'n gwella effeithlonrwydd.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd

Mae gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi mewn iechyd ar draws gwahanol grwpiau o bobl. Gelwir hyn yn aml yn 'anghydraddoldebau iechyd’. Gofynnwyd i’r cyfranogwyr am eu canfyddiadau o sut y gall gofal sylfaenol gefnogi’r ymdrech i leihau anghydraddoldebau iechyd.

# Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd


**Faint o effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y mae'r canlynol yn ei chael ar ba un a yw person yn profi iechyd da?**

| | Dim effaith | Effaith fach | Effaith fawr |
|---|---|---|---|
| Y gallu i gael mynediad at ofal iechyd | 1% | 5% | 93% |
| Cartrefi cynnes o ansawdd da | 1% | 10% | 89% |
| Sicrwydd ariannol da | 3% | 19% | 78% |
| Cysylltiadau cymdeithasol da (e.e. perthnasoedd gyda theuluoedd a ffrindiau) | 2% | 20% | 77% |
| Amodau gwaith teg | 3% | 20% | 77% |
| Ansawdd aer da | 2% | 23% | 74% |
| Addysg o ansawdd da | 5% | 29% | 67% |
| Mynediad da at drafnidiaeth | 4% | 38% | 57% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%

# Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd

**Faint o rôl, os o gwbl, sydd gan wasanaethau gofal sylfaenol (e.e. meddygfeydd teulu, fferyllfeydd cymunedol, optometryddion, a deintyddion) yn eich barn chi o ran cefnogi pawb i brofi iechyd da a lleihau anghydraddoldebau iechyd?**




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd

**Pa mor dderbyniol, os o gwbl, fyddai hi i chi pe bai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn eich holi am y canlynol?**

| | Ddim yn dderbyniol | Rhywfaint yn dderbyniol | Derbyniol iawn |
|---|---|---|---|
| Eich sicrwydd ariannol | 28% | 48% | 23% |
| Amgylchedd eich tai | 3% | 33% | 63% |
| Eich cyflogaeth | 8% | 37% | 53% |
| Eich gallu i gael mynediad at ofal iechyd | 2% | 13% | 85% |
| Eich cysylltiadau cymdeithasol | 11% | 41% | 48% |
| Eich mynediad at gludiant | 4% | 35% | 60% |
| Ansawdd yr aer rydych chi'n ei anadlu | 3% | 25% | 72% |
| Eich llesiant cyffredinol (dyma'ch cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach ac yn hapus) | 1% | 14% | 85% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad : yn hafal i neu'n llai na 2%

# Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd


## Faint o gyfrifoldeb, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn practisau meddygon teulu ei gael ar gyfer pob un o'r canlynol?

| | Ddim yn gwybod | Dim cyfrifoldeb o gwbl | Dim llawer o gyfrifoldeb | Cryn dipyn o gyfrifoldeb | Llawer iawn o gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparu gofal iechyd parhaus a chymorth i gleifion â chyflyrau hirdymor (e.e. cael archwiliadau mwy rheolaidd i gleifion) | Llai na 1% | Llai na 1% | 1% | 23% | 75% |
| Gweithio gyda chymunedau lleol i helpu i atal afiechyd | 1% | 2% | 11% | 42% | 44% |
| Helpu cleifion i fwyta diet iach a bod yn gorfforol egnïol | 1% | 2% | 16% | 49% | 32% |
| Cyfeirio cleifion at wasanaethau lleol a all eu cefnogi ar gyfer anghenion anfeddygol sy'n effeithio ar eu hiechyd (e.e. banciau bwyd ac elusennau tai) | 1% | 4% | 15% | 43% | 37% |
| Gofyn a oes gan gleifion anghenion anfeddygol sy'n effeithio ar eu hiechyd (e.e. problemau gyda thai, diweithdra, neu ddiffyg bwyd) | 1% | 5% | 20% | 47% | 27% |


Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%

# Gofal sylfaenol ac anghydraddoldebau iechyd

**A ydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu dyrannu arian ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yn seiliedig ar anghenion y bobl mewn ardal (h.y. statws iechyd, lefelau cyflogaeth ac ansawdd yr amgylchedd)?**




**A ydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu bod dyraniad arian ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yn seiliedig ar anghenion y bobl mewn ardal, <u>hyd yn oed os yw'n golygu bod ardal â phobl ag iechyd da yn cael llai o wasanaethau gofal sylfaenol</u>?**




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol

Mae gallu derbyn gofal iechyd pryd a sut rydych ei angen yn bwysig er mwyn cyflawni'r canlyniadau iechyd gorau. Fe wnaethom ofyn i’r cyfranogwyr am eu hoffterau o ran sut y byddent am i wasanaethau gofal sylfaenol gael eu darparu.

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol

**Dychmygwch fod gennych bryderon iechyd lluosog yr oeddech am siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn eu cylch. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol

**Dychmygwch eich bod am weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn meddygfa ar gyfer cyflwr iechyd newydd ond nad yw'n argyfwng nad ydych wedi'i gael o'r blaen. Trefnwch y canlynol yn nhermau'r pwysicaf i leiaf pwysig.**

| | 1 Pwysicaf | 2 | 3 | 4 Leiaf pwysig |
|---|---|---|---|---|
| Cael eich gweld gan yr un person rydych chi wedi'i weld o'r blaen | 24% | 18% | 16% | 41% |
| Cael eich gweld yn gyflym | 40% | 23% | 22% | 14% |
| Cael eich gweld ar amser sy'n addas i chi | 18% | 27% | 32% | 21% |
| Cael eich gweld mewn ffordd sy'n addas i chi (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb) | 17% | 31% | 29% | 22% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol

**Dychmygwch eich bod am weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn meddygfa ar gyfer cyflwr iechyd brys newydd nad ydych wedi'i gael o'r blaen. Trefnwch y canlynol yn nhermau'r pwysicaf i leiaf pwysig.**

| | 1 Pwysicaf | 2 | 3 | 4 Leiaf pwysig |
|---|---|---|---|---|
| Cael eich gweld gan yr un person rydych chi wedi'i weld o'r blaen | 10% | 21% | 17% | 51% |
| Cael eich gweld yn gyflym | 81% | 10% | 4% | 3% |
| Cael eich gweld ar amser sy'n addas i chi | 2% | 31% | 42% | 23% |
| Cael eich gweld mewn ffordd sy'n addas i chi (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb) | 5% | 37% | 35% | 21% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol


**Nawr, dychmygwch eich bod am weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn meddygfa deulu ar gyfer cyflwr iechyd presennol yr ydych wedi'i gael ers tro. Trefnwch y canlynol yn nhermau'r pwysicaf i leiaf pwysig.**

| | 1 Pwysicaf | 2 | 3 | 4 Leiaf pwysig |
|---|---|---|---|---|
| Cael eich gweld gan yr un person rydych chi wedi'i weld o'r blaen | 57% | 17% | 9% | 16% |
| Cael eich gweld yn gyflym | 20% | 27% | 22% | 29% |
| Cael eich gweld ar amser sy'n addas i chi | 11% | 28% | 37% | 22% |
| Cael eich gweld mewn ffordd sy'n addas i chi (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb) | 10% | 26% | 31% | 32% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol


**Pa mor hir ydych chi'n meddwl sy'n dderbyniol i chi aros am apwyntiad cyffredinol gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn eich meddygfa?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol


**Gall meddygfeydd teulu gynnig apwyntiadau gofal iechyd mewn gwahanol ffyrdd. Pa un o'r canlynol fyddai'n dderbyniol i chi?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Gwell gennyf beidio â dweud: llai na 1%

# Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol

**Pa mor hir ydych chi'n meddwl sy'n dderbyniol i chi deithio ar gyfer prawf arferol fel prawf gwaed neu belydr-x?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Cysylltedd cymdeithasol

Mae lefelau cysylltedd cymdeithasol yn effeithio ar iechyd. Gofynnwyd i bobl am eu rhyngweithiadau a'u llesiant personol.

# Cysylltedd cymdeithasol


## Pa mor aml ydych chi'n ymweld â ffrindiau neu deulu neu'n eu cael nhw i ymweld â chi?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Cysylltedd cymdeithasol


**Pa un o'r canlynol ydych chi'n ymwneud ag ef unwaith yr wythnos neu'n amlach?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Cysylltedd cymdeithasol

## Yn gyffredinol, pa mor gysylltiedig ydych chi'n teimlo â phobl?




Gwell gennyf beidio â dweud: llai na 1%


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Llesiant personol

Mae llesiant personol a'u hymddygiadau yn effeithio ar ein hiechyd. Y cwestiynau llesiant personol a ddefnyddiwyd oedd rhai cwestiynau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS4) a chawsant eu categoreiddio o raddfa Likert 11 pwynt i bedwar categori yn unol â chanllawiau SYG (Canllaw ar lesiant personol i ddefnyddwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; yn agor mewn ffenestr newydd). Dosbarthwyd y trothwyon ar gyfer 'boddhad bywyd', 'gwerth chweil' a 'hapusrwydd' fel a ganlyn: isel (0 i 4), canolig (5 i 6), uchel (7 i 8), ac uchel iawn (9 i 10). Categorïwyd 'pryder' fel: isel iawn (0 i 1), isel (2 i 3), canolig (4 i 5), ac uchel (6 i 10).

# Llesiant personol


## Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd ydyddiau hyn, lle mae 0 yn "ddim yn fodlon o gwbl" a 10 yn "hollol fodlon"?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Llesiant personol


**Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil, lle mae 0 yn "ddim yn werth chweil o gwbl" a 10 yn "hollol werth chweil"?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Llesiant personol


## Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe, lle mae 0 yn "ddim yn hapus o gwbl" a 10 yn "hollol hapus"?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Llesiant personol

## Ar raddfa lle mae 0 yn "ddim yn bryderus o gwbl" a 10 yn "hollol bryderus", yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Llesiant personol

## O'i gymharu â chwe mis yn ôl, a fyddech chi'n dweud bod y canlynol wedi cynyddu, gostwng, neu aros yr un peth?

| | Wedi cynyddu | Wedi gostwng | Wedi aros yr un peth | Ddim yn berthnasol - dwi byth yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|
| Faint o alcohol rydych chi'n ei yfed | 5% | 21% | 43% | 30% |
| Faint rydych chi'n ei ysmygu (tybaco / fêpio) | 3% | 3% | 9% | 85% |
| Eich defnydd o feddyginiaeth (h.y. ar bresgripsiwn a thros y cownter) | 19% | 6% | 53% | 21% |
| Eich defnydd o gyffuriau anghyfreithlon (e.e. canabis, cocên) | 1% | 1% | 2% | 95% |
| Faint o weithgaredd corfforol rydych chi'n ei wneud (e.e. cerdded, campfa, rhedeg) | 27% | 21% | 48% | 4% |
| Y swm rydych chi'n ei gamblo | 2% | 3% | 12% | 83% |
| Pa mor iach rydych chi'n bwyta | 23% | 12% | 64% | Llai na 1% |
| Yr amser rydych chi'n ei dreulio yn cymdeithasu â phobl eraill | 13% | 21% | 64% | 2% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Sicrwydd ariannol

Mae sicrwydd ariannol yn effeithio ar iechyd. Gofynnwyd am sicrwydd ariannol canfyddedig pobl nawr ac yn y dyfodol.

# Sicrwydd ariannol


## Gan feddwl am gyllid eich cartref, pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu orau eich sefyllfa bresennol?




Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Sicrwydd ariannol

## Gan feddwl am gyllid eich cartref, pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu orau'r sefyllfa y credwch y byddwch ynddi, yn ystod y chwe mis nesaf?




Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Sicrwydd ariannol

## Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl fydd yn bryderon ariannol i'ch cartref yn y chwe mis nesaf?

| | Byddant |
|---|---|
| Costau bwyd | 43% |
| Costau ynni (e.e. gwresogi, coginio) | 57% |
| Car/costau cludiant cyhoeddus | 28% |
| Costau tai (e.e. rhent/ taliadau morgais) | 28% |
| Darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn/plant (o dan 18 oed; ac eithrio gofal plant) | 8% |
| Gofal plant | 3% |
| Arall | 5% |
| Dydw i ddim yn credu y bydd gennyf unrhyw bryderon ariannol yn ystod y chwe mis nesaf (ymateb unigryw) | 27% |

Cafodd ymatebion testun rhydd i 'Arall' eu hailgodio a'u cynnwys mewn categorïau presennol lle bo'n briodol. Er enghraifft, cafodd ymatebion yn ymwneud â'r dreth gyngor, biliau dŵr, ac atgyweiriadau tai eu cynnwys o dan y cod 'costau tai'. Gwell gennyf beidio â dweud: 3%


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Isafbris am uned o alcohol

Ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Isafswm Pris Uned (MUP) ar gyfer alcohol, fel un ffordd o geisio lleihau yfed problemus yng Nghymru. Nid yw isafbris uned yn dreth; dyma'r pris isaf cyfreithiol y gall manwerthwyr werthu alcohol amdano. Mae'r pris yn seiliedig ar faint o alcohol sydd ym mhob diod. Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu hagweddau tuag at yr MUP o ran alcohol. Tynnwyd cwestiynau o'r rhai a ofynnwyd yn flaenorol gan Lywodraeth yr Alban (Annex B – Survey Questions - Alcohol - minimum unit pricing: public attitudes research - gov.scot; yn agor mewn ffenestr newydd).

# Isafbris am uned o alcohol


## Cyn heddiw, a oeddech chi'n gwybod bod Isafswm Pris Uned ar gyfer alcohol yng Nghymru?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Isafbris am uned o alcohol

## Faint ydych chi o blaid neu yn erbyn Isafswm Pris Uned o alcohol?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Isafbris am uned o alcohol

Gofynnwyd i'r rhai o blaid isafbris am uned o alcohol (n = 940; heb ei bwysoli)

**Pa un o'r canlynol yw eich prif reswm a'ch ail reswm dros ddweud eich bod o blaid Isafbris am Uned o alcohol?**
Gofynnwyd y cwestiwn hwn ar ffurf dau gwestiwn annibynnol.

| | Prif reswm | Ail reswm |
|---|---|---|
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan alcohol yn gyffredinol | 47% | 19% |
| Helpu i atal pobl rhag yfed gormod yn gyffredinol | 18% | 15% |
| Helpu i atal pobl ifanc rhag yfed/yfed gormod | 9% | 14% |
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd oherwydd yfed | 15% | 30% |
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau yfed | 6% | 15% |
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau gyda diodydd cryf penodol | 3% | 4% |
| Arall | 1% | 1% |
| Ddim yn gwybod | Llai na 1% | 1% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob cwestiwn: 1%

# Isafbris am uned o alcohol

Gofynnwyd i'r rhai yn erbyn isafbris am uned o alcohol (n = 456; heb ei bwysoli)

**Pa un o'r canlynol yw eich prif reswm a'ch ail reswm dros ddweud eich bod yn erbyn Isafbris am Uned o alcohol?**
Gofynnwyd y cwestiwn hwn ar ffurf dau gwestiwn annibynnol.

| | Prif reswm | Ail reswm |
|---|---|---|
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan alcohol yn gyffredinol | 23% | 14% |
| Helpu i atal pobl rhag yfed gormod yn gyffredinol | 9% | 13% |
| Helpu i atal pobl ifanc rhag yfed/yfed gormod | 24% | 19% |
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd oherwydd yfed | 10% | 14% |
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau yfed | 5% | 12% |
| Helpu i fynd i'r afael â phroblemau gyda diodydd cryf penodol | 10% | 14% |
| Ni ddylai'r wladwriaeth ymyrryd | 12% | 10% |
| Arall | 6% | 4% |
| Ddim yn gwybod | Llai na 1% | 1% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob cwestiwn: 0%


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial

Mae sgrinio'r fron yn wasanaeth i ganfod canser y fron yn gynnar. Mae'r broses sgrinio bresennol yn cynnwys mamogramau (h.y. pelydrau-x) o bob bron sydd wedyn yn cael eu hadolygu gan ddau arbenigwr gofal iechyd medrus. Gwnaethom holi'r cyfranogwyr am eu barn ar ddefnyddio offeryn deallusrwydd artiffisial (AI) cymeradwy yn y dyfodol i gefnogi arbenigwyr gofal iechyd i adolygu mamogramau. Mae AI yn derm sy'n disgrifio'r defnydd o gyfrifiaduron a thechnoleg ddigidol i gyflawni tasgau cymhleth y credir yn aml bod angen gwybodaeth benodol arnynt.

# Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial

## Ydych chi erioed wedi cael mamogram (h.y. pelydr-x o'r fron)?




Gwell gennyf beidio â dweud : 1%

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r holl gyfranogwyr oherwydd, er bod menywod rhwng 50 a 70 oed yn cael eu gwahodd ar gyfer sgrinio’r fron gan y GIG, y mae’n bosibl bod cyfranogwyr eraill wedi gofyn am sgrinio’r fron neu wedi cael eu cyfeirio amdano gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, ac felly roedd yn bwysig cofnodi pob profiad

# Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial


## Pa mor wybodus, os o gwbl, fyddech chi'n dweud eich bod chi am y canlynol ...?

| | Ddim yn wybodus o gwbl | Ddim yn wybodus iawn | Gweddol wybodus | Gwybodus iawn |
|---|---|---|---|---|
| Y broses sgrinio'r fron | 28% | 25% | 34% | 12% |
| Y defnydd o AI yn gyffredinol | 23% | 35% | 36% | 6% |
| Y defnydd o AI yn y gwasanaeth gofal iechyd | 36% | 44% | 18% | 2% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial

**Ar hyn o bryd, mae dau arbenigwr gofal iechyd yn adolygu mamogram ac yn penderfynu a yw'n 'normal' neu 'a oes risg y bydd canser yn bresennol yn y fron'. I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r defnydd o offeryn AI cymeradwy i gefnogi arbenigwyr gofal iechyd i adolygu mamogramau (pelydr-x)? Bydd arbenigwr gofal iechyd bob amser yn gyfrifol am benderfynu canlyniad terfynol y mamogram (nid yr offeryn).**




Gwell gennyf beidio â dweud : 4%

# Sgrinio'r fron a deallusrwydd artiffisial

## Pe bai offeryn AI cymeradwy yn cael ei ddefnyddio i gefnogi arbenigwyr gofal iechyd i adolygu mamogramau, pa effaith y credwch y byddai hynny'n ei chael ar y canlynol?

| | Gwella | Aros yr un peth | Gwaethygu | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|
| Preifatrwydd data | 11% | 55% | 25% | 9% |
| Amseroldeb (e.e. cyflymder dychwelyd canlyniadau) | 71% | 16% | 4% | 12% |
| Effeithiolrwydd (e.e. cywirdeb canlyniadau) | 48% | 27% | 13% | 9% |
| Effeithlonrwydd (e.e. baich ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol) | 67% | 17% | 6% | 10% |
| Tegwch (e.e. pawb yn cael eu trin yr un fath) | 36% | 48% | 7% | 8% |
| Cysylltiad rhwng y person a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol | 11% | 48% | 33% | 10% |

# Eisiau bod yn rhan o Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus?


Mae recriwtio i Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.**

**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**




**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

# Cyfranwyr y Prosiect

**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Lewis Brace, Carys Dale

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd, Dynodwyd Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar 'Fuddsoddi ar gyferIechyd a Llesiant' (WHO CC): Dr Sumina Azam, Dr Rebecca Hill

Tîm Cyfathrebu: Aamir Mohammed, Sarah Hibbard, Katie Allen, Rebecca Hopkins, Danny Donovan, Lucy Omnet

Grŵp Cynghori Traws-Sefydliadol: Amy Burgess, Bethan Bowden, Susan Belfourd, Giles Greene, Emily van de Venter, Chris Roberts (Llywodraeth Cymru), Semele Mylona (Llywodraeth Cymru)

**Datblygu'r Holiadur**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Chwefror 2025 mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

# Atodiad

Demograffeg

Dulliau

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 4,088 | | Chwefror 2025 sampl arolwg N = 2, 137 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 1730 | 42% | 954 | 45% |
| | Benyw | 51% | 2319 | 57% | 1166 | 55% |
| | Arall | - | 39 | 1% | 17 | 1% |
| Oedran (blynyddoedd) | 16-29 | 21% | 740 | 18% | 369 | 17% |
| | 30-49 | 29% | 1672 | 41% | 762 | 36% |
| | 50-69 | 31% | 1026 | 25% | 569 | 27% |
| | 70+ | 19% | 650 | 16% | 437 | 20% |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Mwyaf) | 19% | 653 | 16% | 320 | 15% |
| | 2 | 20% | 790 | 19% | 408 | 19% |
| | 3 | 21% | 806 | 20% | 432 | 20% |
| | 4 | 21% | 915 | 22% | 511 | 24% |
| | 5 (Lleiaf) | 20% | 924 | 23% | 466 | 22% |

Nodwch. Data poblogaeth o Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Canol 2020) (yn agor mewn ffenestr newydd); Data cwintel amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) (yn agor mewn ffenest newydd).

Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn pedwar arolwg yn olynol, mae 495 o bobl wedi cael eu tynnu oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 4,088 | | Chwefror 2025 sampl arolwg N = 2,137 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Gwyn | 95% | 3936 | 96% | 2038 | 95% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 1% | 63 | 2% | 34 | 2% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 2% | 58 | 1% | 42 | 2% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 1% | 10 | <1% | 11 | 1% |
| | Ethnigrwydd arall | 1% | 12 | <1% | 8 | <1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | - | 9 | <1% | 4 | <1% |
| Bwrdd Iechyd | BIP Aneurin Bevan | 19% | 763 | 19% | 391 | 18% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 22% | 748 | 18% | 428 | 20% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 16% | 775 | 19% | 365 | 17% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 14% | 630 | 15% | 316 | 15% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12% | 558 | 14% | 312 | 15% |
| | BI Addysgu Powys | 4% | 149 | 4% | 94 | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 12% | 465 | 11% | 231 | 11% |

Nodwch. Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ethnigrwydd (yn agor mewn ffenest newydd) a gafwyd gan Stats Cymru ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn wyn. Amcangyfrifon poblogaeth gan fyrddau iechyd lleol (yn agor mewn ffenest newydd) wedi'u casglu o Stats Cymru. BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol; BI: Bwrdd Iechyd.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai'r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf. I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'rarolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.
- Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect (yn agor mewn ffenest newydd).

# Dulliau

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau' holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Mae'r holiaduron yn cynnwys cwestiynau sydd ag un ymateb a sawl ymateb (h.y. dewiswch bob un sy'n berthnasol). Pan fo cwestiwn yn un â sawl ymateb a'i fod yn cynnwys opsiwn un ymateb yn unig sy'n golygu mai dim ond yr opsiwn hwnnw y gellid ei ddewis, caiff hyn ei gydnabod ar y graff neu'r tabl.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol.
- Ymgymerwyd â recriwtio wedi'i dargedu ychwanegol yn ystod arolwg Chwefror 2025, a chomisiynwyd 400 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ychwanegol. O'r rhain, dewisodd 290 o gyfranogwyr ymuno â'r panel.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr (N = 2,137) a gwblhaodd arolwg mis Chwefror 2025 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1378 | 64% |
| Dros y ffôn | 226 | 11% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 316 | 15% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 217 | 10% |

Cwblhaodd y cyfranogwyr (N = 2,137) arolwg mis Chwefror 2025 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1545 | 72% |
| Dros y ffôn | 85 | 4% |
| Wyneb yn wyneb | 507 | 24% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd i
greu Cymru iachach

Working together for a
healthier Wales